3.1 Yr un yw byrdwn rhagolwg cyfraddau llog Cynghorwyr Rheoli Trysorlys y Cyngor, Arlingclose's, â'r hyn a gafwyd dros y blynyddoedd diwethaf. Hynny yw, y bydd cyfraddau llog yn parhau i fod yn isel am gyfnod hwy eto. Yn wir, rhagwelir y bydd cyfraddau llog swyddogol y DU yn parhau ar 0.5% hyd 2016, o ystyried y rhagolygon marwaidd o dwf economaidd a gweithrediad y camau cynilo a gyhoeddwyd yn Natganiad Hydref y Canghellor. Hyd nes y ceir datrysiad credadwy i'r problemau sy'n gysgod dros Ardal yr Ewro - ac er mwyn sicrhau'r datrysiad hwnnw mae angen undod cyllidol llwyr, y ceir sawl rhwystr gwleidyddol sylweddol iddo - bydd statws y DU fel hafan ddiogel, ac annhebygolrwydd unrhyw gynnydd mewn cyfraddau llog swyddogol yn parhau i gyfuno a chefnogi byrdwn y rhagolwg.

3.2 Mae'r rhagolwg ar gyfer yr economi a chyfraddau llog a ddarparwyd gan Arlingclose wedi'i atodi ar dudalen 33. Bydd y Cyngor yn ailystyried ei strategaeth o bryd i'w gilydd mewn ymateb i ddigwyddiadau economaidd, gwleidyddol ac ariannol sy'n datblygu.

4. Strategaeth Fenthyca

4.1 Mae lefel absoliwt cyfraddau benthyca, yn ogystal â'r berthynas rhwng cyfraddau llog byrdymor a hirdymor yn parhau i ddylanwadu ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys, ac ar strategaethau benthyca yn enwedig. Mae'r gwahaniaeth hwn yn creu "costau cludo" ar unrhyw fenthyca tymor hwy newydd lle caiff y derbyniadau eu cadw dros dro fel buddsoddiadau oherwydd y gwahaniaeth rhwng yr hyn sy'n cael ei dalu ar y benthyciad a'r hyn sy'n cael ei ennill ar y buddsoddiad. Mae costau cludo'n debygol o fod yn berthnasol hyd 2016 a thu hwnt. Gan y bydd benthyciadau'n cael eu trefnu dros gyfnodau hwy (unrhyw gyfnod hyd at 50 mlynedd), mae angen ystyried costau cludo mewn cyd-destun o ansicrwydd a'r cyfyngiadau ar fforddiadwyedd a geir yn sefyllfa ariannol ehangach y Cyngor.

4.2 Fel y nodwyd yn Nhabl 1, mae gan y Cyngor ofyniad benthyca crynswth o £19.1m yn 2013/14, ond mae ganddo ddigon o falansau a chronfeydd wrth gefn i osgoi'r anen am fenthyca allanol. I bob pwrpas, drwy fenthyg yr arian sydd ganddo'n weddill iddo ef ei hun, gall y Cyngor gadw costau benthyca mor isel ag sy'n bosibl, a lleihau'r risg gyffredinol i'r trysorlys drwy ostwng balansau ei fuddsoddiadau allanol.

5. Goblygiadau i'r Portffolio a Ffynonellau Benthyca

5.1 Ochr yn ochr â'r cyngor gan Arlingclose, bydd y Cyngor yn adolygu'r ffynonellau benthyca canlynol yn rheolaidd:

- Mewnol
- Y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB)
- Awdurdodau lleol
- Banc Buddsoddi Ewrop *(DS ni fydd BBE ond yn benthyca hyd at 50% tuag at ariannu prosiect penodol, ac mae angen i'r prosiect hwnnw fodloni meni prawf penodol BBE)*
- Prydlesu
- Cyllid strwythuredig
- Marchnadoedd cyfalaf (materion stoc, biliau a phapur masnachol)
- Banciau masnachol

5.2 Disgwylir y bydd y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy yn parhau i fod yn fwy na digon i dalu am y Gofyniad Benthyca Allanol Crynswth dros y tymor canolig, ac felly o ystyried y costau cludo cyfredol sy'n gysylltiedig â benthyca allanol, bydd y Cyngor yn parhau â'i bolisi o fenthyca'n allanol dros y cyfnod hwn.

5.3 Rydym yn parhau i gadw golwg ar amlygiad y Cyngor i fenthyciadau cyfnod byrrach a chanddynt gyfradd newidiol drwy gyfeirio at y gwahaniaeth, neu'r ymlediad rhwng, costau cyfraddau benthyca newidiol a thymor hwy. Bydd culhau'r ymlediad yn sylweddol (e.e. ar gyfradd o 0.50%) yn sbarduno adolygiad ffurfiol o'r strategaeth benthyca ar unwaith, er mwyn canfod a ddylid cadw neu newid yr amlygiad i gyfraddau cyfnod byrrach a newidiol. Bydd dibyniaeth gynyddol ar y math hwn o fenthyca'n dod ag anwadalwch i'r portffolio dyledion, o ran y risg yn gysylltiedig â chyfraddau llog, ond gwrthbwysir hyn gan ei fforddiadwyedd, a thrwy gysoni costau benthyca â derbyniadau buddsoddi.

5Mae'r Cyngor yn agored i £23.8m o fenthyciadau LOBO (Lender's Option Borrower's Option) a gall £19.3m o'r swm hwnnw gael ei "alw" yn ystod 2013/14. Caiff LOBO ei alw pan fydd y darparwr benthyciad yn arfer ei hawl i newid cyfradd y llog ar y benthyciad, a phryd hynny caiff y benthycwr dderbyn y telerau diwygiedig, neu eu gwrthod ac ad-dalu'r benthyciad. Gall benthyciadau LOBO achosi risg ailgyllido posibl i'r Awdurdod, gan mai'r darparwr benthyciad yn unig sydd i benderfynu pryd i alw LOBO.

5.5 Trafodir unrhyw fenthyciadau LOBO a gaiff eu galw gyda Arlingclose cyn derbyn unrhyw delerau diwygiedig. Y sefyllfa ddiofyn fydd ad-dalu'r benthyciad LOBO heb gosb, h.y. peidio derbyn y telerau diwygiedig.

6. Ad-drefnu Dyledion

6.1 Mae modd ad-drefnu portffolio dyledion PWLB yr Awdurdod drwy ad-dalu benthyciadau a'u hailgyllido ar delerau tebyg neu wahanol er mwyn lleihau risg ac/neu sicrhau arbedion mewn costau llog.

6.2 Mae'r cyfraddau llog isel a geir ar hyn o bryd a'r newidiadau i'r rheolau ynghylch ad-dalu benthyciadau PWLB yn gynnar wedi amharu ar y posibilrwydd i ailstrwythuro dyledion mewn modd ystyrlon, er bod ambell gyfle yn codi i wneud hynny. Y sail resymegol i ad-drefnu neu ad-dalu unrhyw ddyledion fyddai un neu fwy o'r canlynol:

- Lleihau'r balansau buddsoddi ac amlygiad i gredyd drwy ad-dalu dyledion
- Cysoni amcanestyniadau llif arian hirdymor a lefelau dyled
- Arbedion mewn costau llog ar ôl addasu risg
- Ailfantoli strwythur cyfraddau llog y portffolio dyledion
- Newid proffil aeddfedrwydd y portffolio dyledion

6.3 Adroddir am weithgarwch benthyca ac ad-drefnu yn yr Adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol, ac yn yr adroddiadau Rheoli Trysorlys rheolaidd a gyflwynir i'r Bwrdd Gweithredol.

7. Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol

7.1 Yn unol â'r Canllawiau Buddsoddi a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ac arfer gorau, prif amcan y Cyngor hwn o hyd, mewn perthynas â buddsoddi arian cyhoeddus, yw sicrwydd cyfalaf. Mae hylifedd neu hygyrchedd buddsoddiadau'r Cyngor yn ail ystyriaeth, a'r drydedd ystyriaeth ar ôl hynny yw'r enillion a geir ar fuddsoddiadau.

7.2 Mae'r Cyngor ac Arlingclose yn parhau i fod yn gwylio'n ofalus am arwyddion o annifyrrwch o ran credyd neu yn y marchnadoedd a allai fod yn niweidiol i'r Cyngor.

7.3 Caiff buddsoddiadau eu dosbarthu'n rhai "Penodedig" neu'n rhai "Amhenodedig" yn y canllawiau buddsoddi a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Buddsoddiadau penodedig yw buddsoddiadau mewn sterling gydag uchafswm o flwyddyn o gyfnod aeddfedu. Maent hefyd yn bodloni'r "ansawdd credyd uchel" fel y caiff ei bennu gan y Cyngor, ac ni thybir eu bod fuddsoddiadau gwariant cyfalaf o dan Statud. Y buddsoddiadau Amhenodedig yw'r holl fuddsoddiadau eraill, i bob pwrpas.

7.4 Dyma'r mathau o fuddsoddiadau a ddefnyddir gan y Cyngor. Nodir hefyd ai benthyciadau Penodedig ynteu fenthyciadau Amhenodedig yr ydynt:

Tabl 2: Buddsoddiadau Penodedig ac Amhenodedig

Buddsoddiad	Penodedig	Amhenodedig
Adneuon cyfnod gyda banciau a chymdeithasau adeiladu	✓	✓
Adneuon cyfnod gydag awdurdodau lleol eraill yn y DU	✓	✓
Buddsoddiadau gyda Darparwyr Cofretsredig	✓	✓
Tystysgrifau adneuo gyda banciau a chymdeithasau adeiladu	✓	✓
Giltiau	✓	✓
Biliau'r Trysorlys (Biliau T)	✓	×
Bondiau a gyhoeddwyd gan Fanciau Datblygu Amlochrog	✓	✓
Biliau Awdurdodau Lleol	✓	×

Papur Masnachol	✓	×
Bondiau Corfforaethol	✓	✓
Cyllid y Farchnad Arian Gradd AAA	×	✓
Cynlluniau Eraill y Farchnad Arian a Chydfuddsoddi	✓	✓
Cyfleuster Adneuo Cyfrif Rheoli Dyledion	✓	×
Buddsoddiadau gyda sefydliadau eraill[1]	×	✓

Ceir manylion pellach ar dudalennau 35 i 37.

7.5 Mae Darparwyr Cofrestredig (RPs) wedi'u cynnwys o fewn y Buddsoddiadau Penodedig a'r Buddsoddiadau Amhenodedig ar gyfer 2013/14. Caiff buddsoddiadau gydag RPs eu dadansoddi ar sail unigol, a'u trafod gydag Arlingclose cyn buddsoddi.

7.6 Mae buddsoddiadau gyda sefydliadau eraill wdi cael eu cynnwys fel categori buddsoddi amhenodedig ar gyfer 2013-14. Byddai hyn yn cynnwys cyfleoedd i fuddsoddi gyda busnesau bach a chanolig (BBaChau) a chyda busnesau eraill ledled y DU. Oherwydd y canfyddiad bod gan BBaChau risg credyd uwch, mae'n bosibl y bydd y buddsoddiadau hynny'n sicrhau cyfraddau uwch o enillion Bydd asesiad credyd allanol yn cael ei gynnal, a gofynnir am gyngor gan Arlingclose (os yw ar gael) cyn gwneud unrhyw benderfyniad ynghylch buddsoddi.

7.7 Y statws credyd gofynnol ar gyfer gwledydd sofran ar wahân i'r DU yw AA+ (neu gyfwerth). Ar gyfer buddsoddiadau penodedig, yr statws gofynnol hirdymor ar gyfer partïon i gontract yw A- (neu gyfwerth). Fel y nodir yn Buddsoddiadau Amhenodedig ar dudalen 37, caiff y Pennaeth Cyllid ddewis buddsoddi gyda phartïon nad ydynt yn bodloni'r meini prawf penodedig, yn seiliedig ar gyngor gan Arlingclose.

Mae'r nodweddion credyd eraill, yn ogystal â statws credyd, a gaiff eu monitro gan y Cyngor wedi'u rhestru yn y Dangosydd Darbodus ar gyfer Risg Credyd (tud 31, Adran 11).

Bydd unrhyw sefydliad yn cael ei wahardd neu ei ddileu os bydd unrhyw un o'r ffactorau a nodir uchod yn peri pryder. Yn benodol, caiff statysau credyd eu monitro'n ddyddiol gan y Cyngor. Bydd Arlingclose yn cynghori ynghylch newidiadau i sgorau a'r camau priodol i'w cymryd.

[1] *Yn amodol ar asesiad credyd allanol a chyngor penodol gan Arlingclose.*

Mae'r gwledydd a'r sefydliadau sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer buddsoddiadau ar hyn o bryd wedi'u cynnwys ar dudalen 35.

Polisi'r Cyngor o hyd yw gwneud eithriadau i bolisi gwrthbarti yn seiliedig ar statysau credyd, ond mae hyn yn amodol a chyfeiriol. Mae hyn yn golygu y gallai sefydliad sy'n bodloni'r meini prawf gael ei wahardd, ond na fydd sefydliadau sy'n bodloni'r meini prawf yn cael eu hychwanegu.

7.8 **Banc yr Awdurdod** – Banc y Cyngor yw National Westminster Bank Plc. Ar hyn o bryd, mae'n bodloni meini prawf credyd gofynnol y Cyngor. Hyd yn oed os bydd y statws credyd yn disgyn yn is na maen prawf gofynnol A- y Cyngor, bydd yn parhau i gael ei ddefnyddio arg yfer gofynion hylifedd byrdymor (buddsoddiadau dros nos a thros y penwythnos) ac ar gyfer trefniadau parhad busnes.

Daw contract cyfleusterau bancio cyfredol y Cyngor i ben ar 31 Mawrth 2013 ac mae cyfarwyddeb yr UE yn atal National Westminster Bank Plc rhag tendro ar gyfer y contract newydd a ddyfernir o 1 Ebrill 2013 ymlaen.

8. Strategaeth Fuddsoddi

8.1 Gyda chyfraddau llog byrdymor yn isel am beth amser, bydd strategaeth fuddsoddi, yn nodweddiadol, yn ymestyn cyfnodau buddsoddi, pan fo llif arian yn caniatáu, er mwyn cloi cyfraddau llog uwch o dderbyniadau addasedig ac iddynt risg dderbyniol. Problem yr amgylchedd sydd ohoni yw canfod gwrthbarti buddsoddi sy'n cynig lefelau derbyniol o risg gwrthbarti.

8.2 Er mwyn amrywio portffolio sydd wedi'i fuddsoddi mewn arian parod i raddau helaeth, caiff buddsoddiadau eu gwneud gyda gwrthbartïon dros ystod o gyfnodau aeddfedu. Pennir uchafswm y buddsoddiad gyda phob gwrthbarti er mwyn sicrhau amrywio darbodus.

8 Bydd cronfeydd y farchnad arian (MMF) yn cael eu defnyddio, ond bydd arferion da wrth Reoli Trysorlys yn dal i fodoli, ac er bod MMFs yn sicrhau lefel dda o amrywio, bydd yr Awdurdod hefyd yn ceisio lliniaru risg weithredol drwy ddefnyddio dau MMF o leiaf. Bydd y Cyngor hefyd yn cyfyngu ar ei amlygiad i MMFs drwy roi llai o gyllid o dan reolaeth, ac ni fydd yn fwy na 0.5% o werth ased clir yr MMF. Yn achos MMF y Llywodraeth, bydd y Cyngor yn sicrhau na fydd amlygiad i bob Cronfa yn fwy na 2% o werth ased clir y Gronfa.

9. Polisi ar Ddefnyddio Deilliadau Ariannol

9.1 Mae Deddf Lleoliaeth 201 yn cynnwys pŵer cymhwysedd cyffredinol sy'n cael gwared â'r ansicrwydd ynghylch defnydd awdurdodau lleol yn Lloegr o ddeilliadau ariannol

arunig (h.y. y rhai nad ydynt wedi'u mewnosod mewn benthyciad neu fuddsoddiad). Er nad yw'r newid hwn yn berthnasol i Gymru, mae Cod diweddaraf CIPFA yn ei gwneudh i'n ofynnol i awdurdodau nodi'n glir beth yw eu polisi ar ddefnyddio deilliadau yn y strategaeth flynyddol.

9.2 Yn absenoldeb unrhyw hawl cyfreithiol, polisi'r Cyngor yw peidio ymgymryd â thrafodaethau deilliadau ariannol arunig fel cyfnewidiadau, blaen gytundebau, blaen drafodion ariannol ac opsiynau. Nid yw'r polisi hwn yn berthnasol i ddeilliadau wedi'u mewnosod mewn cytundebau eraill, er bydd y risgiau ynghlwm wrth y deilliadau hynny'n cael eu rheoli o fewn y strategaeth rheolaeth risgiau gyffredinol.

10. Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw (MRP) 2013/14

10.1 Mae'n ofynnol i'r Cyngor bennu polisi blynyddol ar gyfer y modd y mae'n cyfrifo'r ddarpariaeth ddarbodus ar gyfer ad-dalu benthyciadau (MRP). Ceir polisi eleni ar dudalen 39 yr adroddiad hwn.

11. Monitro ac Adrodd ar Alldro'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodus

11.1 Bydd y Pennaeth Cyllid yn adrodd wrth y Bwrdd Gweithredol ar weithgarwch/perfformiad Rheoli Trysorlys a Dangosyddion Darbodus, fel a ganlyn:

- Ddwywaith, ym mis Hydref a mis Ionawr, yn erbyn y strategaeth a gymeradwywyd ar gyfer y flwyddyn. Bydd y Cyngor yn cyflwyno adroddiad alldro ar ei weithgarwch Rheoli Trysorlys erbyn 30 Medi ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.
- Bydd y Pwyllgor Craffu Cwsmeriaid, Perfformiad ac Adnoddau (Sefydliad) yn gyfrifol am graffu ar weithgarwch ac arferion Rheoli Trysorlys.

12. Eitemau Eraill

12.1 Hyfforddiant

Mae Cod Ymarfer CIPFA yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Pennaeth Cyllid sicrhau bod yr holl aelodau a chanddynt gyfrifoldebau Rheoli Trysorlys, gan gynnwys craffu ar y swyddogaeth Rheoli Trysorlys, yn derbyn hyfforddiant priodol sy'n cyd-fynd â'u hanghenion, a'u bod yn deall eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau'n llawn.

12.2 Cynghorwyr Rheoli Trysorlys

Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn defnyddio Arlingclose fel Cynghorwyr Rhoeli Trysorlys ac yn derbyn y gwasanaethau canlynol:

- Cyngor ynghylch credyd
- Cyngor ynghylch buddsoddi
- Cyngor technegol
- Rhagolygon economaidd a chyfraddau llog
- Gweithdai a digwyddiadau hyfforddi
- Cefnogaeth gyda'r HRA

Mae'r Cyngor yn cynnal ansawdd y gwasanaeth ag Arlingclose drwy gynnal cyfarfodydd bob chwarter a thrwy dendro'n gyfnodol.

12.3 **Diwygio Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai**

Mae Llywodraeth Cymru'n cynnal trafodaethau â Thrysorlys EM ynghylch diwygio system cymhorthdal yr HRA yng Nghymru. Nid yw manylion yr union ddull a ddefnyddir na'r manylion amseru ar gael ar hyn o bryd. Bydd y Cyngor yn monitro datblygiadau yn y maes hwn wrth i fanylion pellach gael eu rhyddhau.

Sefyllfa Bresennol y Portffolio Buddsoddiadau a Dyledion (Adran 2.2)

	31/01/2013 Portffolio Gwirioneddol £m	31/01/2013 Cyfradd Gyfartalog %
Benthyca Allanol:		
PWLB - Cyfradd Sefydlog	102.6	6.1
PWLB - Cyfradd Newidiol	0.0	0.0
Awdurdodau Lleol	0.0	0.0
Benthyciadau LOBO	23.8	4.7
Benthyciadau Di-log	0.8	0.0
Cyfanswm Benthyca Allanol	127.2	5.8
Ymrwymiadau Hirdymor Eraill: *Dyma oedd y Ffigurau ar 31/03/2012* [2]		
PFI	15.2	8.9
Lesau Cyllid	2.3	7.9
Cyfanswm Dyled Allanol Crynswth	**144.7**	**6.1**
Buddsoddiadau:		
Wedi'u rheoli'n fewnol		
Buddsoddiadau Byrdymor (Adneuon /Arian yn ôl y Galw/Cyllid y Farchnad Arian)	46.6	0.9
Buddsoddiadau Hirdymor	0.0	0.0
Wedi'u rheoli'n allanol		
Rheolwyr Cronfa	0.0	0.0
Cronfeydd Cyfun	0.0	0.0
Cyfanswm Buddsoddiadau	46.6	0.9
Dyled Glir	**98.1**	

[2] *Dangosir y ffigurau ar gyfer PFI a Lesau Cyllid fel ag yr oeddent ar 31 Mawrth 2012, gan nad yw'n ymarferol datgelu eu gwerth ar ganol blwyddyn.*

Dangosyddion Darbodus 2013/14 – 2015/16

1. Y Cefndir:

O dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2002, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ystyried y ddogfen CIPFA's Prudential Code for Capital Finance in Local Authorities ("Cod Materion Ariannol CIPFA") wrth bennu ac adolygu eu Dangosyddion Darbodus.

2. Dyled Grynswth a'r Gofyniad Cyllid Cyfalaf:

Dyma ddangosydd allweddol ar gyfer pa mor ddarbodus yw rhywbeth. Er mwyn sicrhau mai dim ond at ddibenion cyfalaf yn unig y bydd y ddyled glir dros y tymor canolig, dylai'r awdurdod lleol sicrhau nad yw'r ddyled, ac eithrio yn y tymor byr, yn uwch na chyfanswm y Gofyniad Cyllid Cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol, ynghyd â'r amcangyfrifon ar gyfer unrhyw gynnydd ychwanegol yn y Gofyniad Cyllid Cyfalaf ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol nesaf.

Os oes gostyngiad yn unrhyw un o'r blynyddoedd hyn yn y Gofyniad Cyllid Cyfalaf, anwybyddir y gostyngiad hwn wrth amcangyfrif y cynnydd cronnus yn y Gofyniad Cyllid Cyfalaf a ddefnyddir er cymhariaeth â'r Ddyled Allanol Grynswth.

Mae'r Pennaeth Cyllid yn adrodd na chafodd y Cyngor unrhyw drafferth yn bodloni'r gofyniad hwn yn 2011/12, ac na ragwelir unrhyw drafferthion ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Mae'r farn hon yn ystyried ymrwymiadau presennol, cynlluniau presennol a'r cynigion yn y gyllideb gymeradwy.

3. Amcangyfrifon Gwariant Cyfalaf:

3.1 Caiff y dangosydd hwn ei bennu i sicrhau bod gwariant cyfalaf arfaethedig yn aros o fewn terfynau cynaliadwy ac, yn arbennig, i ystyried yr effaith ar Dreth y Cyngor ac, yn achos yr HRA, yr effaith ar lefelau rhent tai..

Gwariant Cyfalaf	2012/13 Cymeradwy £m	2012/13 Diwygiedig £m	2013/14 Amcangyfrif £m	2014/15 Amcangyfrif £m	2015/16 Amcangyfrif £m
Ar wahân i'r HRA	32.6	32.0	19.1	17.6	8.2
HRA	15.4	15.4	15.0	15.0	15.0
Cyfanswm	**48.0**	**47.4**	**34.1**	**32.6**	**23.2**

3.2 Bydd gwariant cyfalaf yn cael ei gyllido neu ei ariannu fel a ganlyn:

Cyllid Cyfalaf	2012/13 Cymeradwy £m	2012/13 Diwygiedig £m	2013/14 Amcangyfrif £m	2014/15 Amcangyfrif £m	2015/16 Amcangyfrif £m
Derbyniadau Cyfalaf	6.9	6.6	6.3	4.6	0.9
Grantiau'r Llywodraeth	16.0	15.8	6.7	7.3	3.9
Lwfans Atgyweiriadau Mawr	7.5	7.5	7.5	7.5	7.5
Cyfraniadau Refeniw	6.9	7.1	7.6	7.6	7.5
Cronfa Gyfalaf	1.4	1.1	0.3	0.0	0.0
Cyfanswm Cyllido	**38.7**	**38.1**	**28.4**	**27.0**	**19.8**
Benthyca â Chymorth	4.1	4.1	3.5	3.4	3.4
Benthyca Digymorth	3.1	3.1	0.0	0.0	0.0
Menter Leol Benthyciadau gan y Llywodraeth	2.1	2.1	2.2	2.2	0.0
Cyfanswm Ariannu	**9.3**	**9.3**	**5.7**	**5.6**	**3.4**
Cyfanswm Cyllido ac Ariannu	**48.0**	**47.4**	**34.1**	**32.6**	**23.2**

Dengys Tabl 1 (Adran 2.4) fod modd ariannu cynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor yn gyfan gwbl o ffynonellau eraill, yn hytrach nac o fenthyciadau allanol.

4. Cymhareb Costau Cyllido â'r Ffrwd Refeniw Glir:

4.1 Dangosydd fforddiadwyedd yw hwn ac mae'n tynnu sylw at oblygiadau gwariant cyfalaf presennol ac arfaethedig o ran refeniw, drwy nodi cyfran y gyllideb refeniw sydd ei hangen i dalu costau cyllido. Mae'r diffiniad o gostau cyllido i'w gael yn y Cod Materion Ariannol.

4.2 Seiliwyd y gymhareb ar gostau'n glir o incwm buddsoddi.

Cymhareb Costau Cyllido â'r Ffrwd Refeniw Glir	2012/13 Cymeradwy %	2012/13 Diwygiedig %	2013/14 Amcangyfrif %	2014/15 Amcangyfrif %	2015/16 Amcangyfrif %
Ar wahân i'r HRA	5.15	5.14	4.84	4.79	4.78
HRA	3.78	3.75	3.34	3.06	2.71

5. Gofyniad Cyllid Cyfalaf:

5.1 Mae'r Gofyniad Cyllid Cyfalaf (CFR) yn mesur angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca i ddibenion cyfalafol. Caiff y CFR ei gyfrifo o'r symiau ar y Fantolen sy'n gysylltiedig â gwariant a chyllido cyfalaf.

Gofyniad Cyllid Cyfalaf	2012/13 Cymeradwy £m	2012/13 Diwygiedig £m	2013/14 Amcangyfrif £m	2014/15 Amcangyfrif £m	2015/16 Amcangyfrif £m
Ar wahân i'r HRA	139.5	142.2	141.7	141.4	138.8
HRA	20.1	21.4	19.9	18.4	17.0
Cyfanswm CFR	**159.6**	**163.6**	**161.6**	**159.8**	**155.8**

6. Effaith Gynyddrannol Penderfyniadau Buddsoddi Cyfalaf:

6.1 Dangosydd fforddiadwyedd yw hwn sy'n dangos effaith penderfyniadau buddsoddi cyfalaf ar Dreth y Cyngor a Lefelau Rhent Tai. Caiff yr effaith gynyddrannol ei chyfrifo drwy gymharu cyfanswm gofyniad cyllideb refeniw y Rhaglen Gyfalaf gymeradwy gyfredol â chyfrifiad cyfatebol o'r gofyniad cyllideb refeniw sy'n deillio o'r Rhaglen Gyfalaf arfaethedig.

Effaith Gynyddrannol Penderfyniadau Buddsoddi Cyfalaf	2012/13 Cymeradwy £	2012/13 Diwygiedig £	2013/14 Amcangyfrif £	2014/15 Amcangyfrif £	2015/16 Amcangyfrif £
Cynnydd yn Nhreth y Cyngor Band D	35.02	37.91	37.74	33.10	30.81
Cynnydd yng Nghyfartaledd Rhenti Tai Wythnosol	0	0.31	0.36	0.34	0.33

6.2 Mae'r cynnydd ym Mand D Treth y Cyngor a hefyd yng Nghyfartaledd y Rhenti Tai Wythnosol yn adlewyrchu'r cynnydd yn narpariaeth Taliadau Cyllid Cyfalaf sy'n gysylltiedig â benthyciadau sy'n deillio o'r Rhaglen Gyfalaf arfaethedig.

7. Terfyn Awdurdodedig a Therfyn Gweithredol ar gyfer Dyled Allanol:

7.1 Mae gan y Cyngor Strategaeth Rheoli Trysorlys gyfannol, ac mae'n rheoli sefyllfa ei Drysorlys yn unol â'r strategaeth a'r arferion a gymeradwywyd ganddo. Felly bydd benthyca cyffredinol yn codi o ganlyniad i holl drafodion ariannol y Cyngor, ac nid yn unig o ganlyniad i'r trafodion hynny sy'n deillio o wariant cyfalaf a adlewyrchir yn y CFR.

7.2 Mae'r **Terfyn Awdurdodedig** yn pennu dyled allanol mwyaf y Cyngor ar sail grynswth (h.y. ac eithrio buddsoddiadau). Caiff ei fesur bob dydd gyferbyn â'r holl eitemau dyled allanol ar y Fantolen, (h.y. benthyca byrdymor a hirdymor, gorddrafftiau yn y banc ac ymrwymiadau hirdymor). Mae'r Dangosydd Darbodus hwn yn nodi benthyciadau o ymrwymiadau hirdymor eraill fel lesau cyllid ar wahân. Mae'n gyson ag ymrwymiadau presennol y Cyngor, ei gynigion ar gyfer cyllido a gwariant cyfalaf a'i arferion a'i Ddatganiad Polisi Rheoli Trysorlys cymeradwy.

7.3 Y Terfyn Awdurdodedig yw'r terfyn statudol a bennwyd dan Adran 3(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (a elwir yn y ddeddfwriaeth yn Derfyn Fforddiadwy).

7.4 Pennwyd y Terfyn Gweithredol yn seiliedig ar amcangyfrif o'r senario mwyaf tebygol, h.y. darbodus, ond heb fod y senario waethaf, gyda digon o le dros ben hyn i ganiatáu symudiadau arian parod anghyffredin.

7.5 Mae'r Terfyn Gweithredol yn cysylltu'n uniongyrchol ag amcangyfrifon y Cyngor o'r CFR ac amcangyfrifon o ofynion eraill llif arian. Seiliwyd y dangosydd hwn ar yr un amcangyfrifon â'r Terfyn Awdurdodedig gan adlewyrchu'r senario fwyaf tebygol, ddarbodus ond nid yr achos gwaethaf, ond heb y ddarpariaeth ychwanegol sy'n rhan o'r Terfyn Awdurdodedig.

	2012/13 Cymeradwy £m	2012/13 Diwygiedig £m	2013/14 Amcangyfrif £m	2014/15 Amcangyfrif £m	2015/16 Amcangyfrif £m
Terfyn Benthyca Awdurdodedig	189.4	189.9	188.9	188.3	187.9
Terfyn Awdurdodedig ar gyfer Ymrwymiadau Hirdymor Eraill	15.6	16.3	15.8	15.3	14.6
Terfyn Awdurdodedig ar gyfer Dyled Allanol	**205.0**	**206.2**	**204.7**	**203.6**	**202.5**
Terfyn Benthyca Gweithredol	179.4	179.9	178.9	178.3	177.9
Terfyn Gweithredol ar gyfer Ymrwymiadau Hirdymor Eraill	15.6	16.3	15.8	15.3	14.6
Terfyn Gweithredol ar gyfer Dyled Allanol	**195.0**	**196.2**	**194.7**	**193.6**	**192.5**

8. Mabwysiadu Cod CIPFA ar gyfer Rheoli Trysorlys:

8.1 Mae'r dangosydd hwn yn dangos bod y Cyngor wedi mabwysiadu egwyddorion arfer gorau.

Mabwysiadu Cod Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheoli Trysorlys
Cymeradwyodd y Bwrdd Gweithredol y dylid mabwysiadu Cod CIPFA ar Reoli Trysorlys yn ei gyfarfod ar 19 Mawrth 2002 (DFIS/20/02).

Mae'r Cyngor wedi ymgorffori'r newidiadau i God CIPFA ar Reoli Trysorlys (Tachwedd 2011) ym mholisïau, gweithdrefnau ac arferion ei Drysorlys.

9. Terfyn Uchaf Amlygiad i Gyfradd Llog Sefydlog a Chyfradd Llog Newidiol:

9.1 Mae'r dangosyddion hyn yn caniatáu i'r Cyngor reoli i ba raddau y mae'n agored i newidiadau mewn cyfraddau llog. Mae'r Cyngor hwn yn cyfrifo'r terfynau hyn ar y llog clir a dalwyd (h.y. llog a dalwyd ar ddyledion cyfradd sefydlog yn glir o log a dderbyniwyd ar fuddsoddiadau cyfradd sefydlog).

9.2 Pennwyd terfyn uchaf yr amlygiad i gyfradd newidiol er mwyn sicrhau nad yw'r Cyngor yn agored i godiad cyfraddau llog a allai effeithio er gwaeth ar y gyllideb refeniw. Mae'r terfyn yn caniatáu defnyddio dyled cyfradd newidiol i wrthbwyso amlygiad i newidiadau mewn cyfraddau byrdymor ar fuddsoddiadau.

Amlygiadau Cyfraddau Llog	Lefel Bresennol (neu Lefel Meincnod) ar 31/03/12 %	2011/12 Cymeradwy %	2011/12 Diwygiedig %	2012/13 Amcangyfrif %	2013/14 Amcangyfrif %	2014/15 Amcangyfrif %
Sefydlog						
Terfyn Uchaf Amlygiad i Gyfradd Sefydlog ar Ddyledion	100.0	100.0	100.0	100.0	100.0	100.0
Terfyn Uchaf Amlygiad i Gyfradd Sefydlog ar Fuddsoddiadau	-100.0	-100.0	-100.0	-100.0	-100.0	-100.0
Amlygiad Sefydlog Clir	**0.0**	**0.0**	**0.0**	**0.0**	**0.0**	**0.0**
Newidiol						
Terfyn Uchaf Amlygiad i Gyfradd Newidiol ar Ddyledion	30.0	30.0	30.0	30.0	30.0	30.0
Terfyn Uchaf Amlygiad i Gyfradd Newidiol ar Fuddsoddiadau	-100.0	-100.0	-100.0	-100.0	-100.0	-100.0
Amlygiad Newidiol Clir	**-70.0**	**-70.0**	**-70.0**	**-70.0**	**-70.0**	**-70.0**

9.3 Mae'r terfynau uchod yn darparu'r hyblygrwydd angenrheidiol er mwyn penderfynu tynnu benthyciadau newydd i lawr ar sail cyfradd sefydlog neu newidiol; yn y pen draw, bydd y penderfyniadau wedi'u seilio ar y symudiadau a ddisgwylir mewn cyfraddau llog, fel y'u nodir yn Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor.

10. Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau Cyfradd Sefydlog:

10.1 Mae'r dangosydd hwn yn tynnu sylw at fodolaeth unrhyw grynoadau mawr o ddyledion cyfradd sefydlog sydd angen eu disodli ar adegau o ansicrwydd ynghylch cyfraddau llog, ac fe'i lluniwyd i warchod rhag bod yn rhy agored i newid mewn cyfraddau llog yn ystod unrhyw gyfnod penodol, yn arbennig yn ystod y deng mlynedd nesaf.

10.2 Caiff ei gyfrif fel swm y benthyciadau rhagamcanol cyfradd sefydlog sy'n aeddfedu ym mhob cyfnod fel canran o gyfanswm y benthyciadau rhagamcanol sydd ar gyfradd sefydlog. Pennir aeddfedrwydd benthyciadau drwy gyfeirio at y dyddiad cynharaf y gall y gall y darparwr benthyciad fynnu taliad.

10.3 Ystyrir bod LOBOs yn aeddfedu ar y dyddiad galw nesaf h.y. y dyddiad cynharaf y gall y darparwr benthyciad fynnu ad-daliad.

Strwythur Aeddfedrwydd Benthyca Cyfradd Sefydlog	Lefel Bresennol (neu Lefel Meincnod) ar 31/03/12 %	Terfyn Isaf ar gyfer 2013/14 %	Terfyn Uchaf ar gyfer 2013/14 %
Dan 12 mis	11.5	0	20
12 mis ac o fewn 24 mis	4.4	0	20
24 mis ac o fewn 5 mlynedd	6.0	0	20
5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd	4.5	0	80
10 mlynedd ac o fewn 20 mlynedd	12.0	0	80
20 mlynedd ac o fewn 30 mlynedd	6.0	0	80
30 mlynedd ac o fewn 40 mlynedd	28.0	0	80
40 mlynedd ac o fewn 50 mlynedd	27.6	0	80
50 mlynedd a mwy	0.0	0	90
Cyfanswm	100.0		

11. Risg Credyd:

11.1 Bydd y Cyngor yn ystyried sicrwydd, hylifedd ac enillion, yn y drefn honno, wrth wneud penderfyniadau buddsoddi.

11.2 Mae statysau credyd yn parhau i fod yn elfen bwysig wrth asesu risg credyd, ond nid dyna'r unig nodwedd yn asesiad y Cyngor o risg credyd gwrthbarti.

11.3 Bydd y Cyngor hefyd yn ystyried asesiadau gwahanol o gryfder credyd, a gwybodaeth am ddatblygiadau corfforaethol gwrthbartïon a theimlad y farchnad tuag atynt. Caiff yr eitemau allweddol canlynol eu defnyddio i asesu peryglon credyd:

- Statysau credyd cyhoeddedig y sefydliad ariannol (A- o leiaf neu gyfwerth) a'i sofraniaeth (AA+ o leiaf neu gyfwerth ar gyfer gwledydd sofran ar wahân i'r DU);
- Mecanweithiau cefnogi sofraniaeth;
- Ffeirio Diffyg Credyd (pan gaiff ei ddyfynnu);
- Prisiau cyfranddaliadau (pan fyddant ar gael);
- Hanfodion economaidd, megis dyled glir gwlad fel canran o'i CMC);
- Datblygiadau corfforaethol, newyddion ac erthyglau, teimlad a momentwm y farchnad;
- Troshaen oddrychol.

11.4 Yr unig ddangosyddion ac iddynt werthoedd penodedig yw statysau credyd. Caiff dangosyddion eraill sy'n dangos teilyngdod credyd eu hystyried mewn termau cymharol yn hytrach nag mewn termau absoliwt.

12. Terfyn Uchaf Cyfanswm y Prifsymiau a Fuddsoddwyd Dros 364 o Ddiwrnodiau:

12.1 Diben y terfyn hwn yw rheoli amlygiad i'r posibilrwydd o golled a allai godi os bydd y Cyngor yn gorfod ceisio ad-daliad o'r symiau a fuddsoddwyd.

	2012/13 Cymeradwy £m	2012/13 Diwygiedig £m	2013/14 Amcangyfrif £m	2014/15 Amcangyfrif £m	2015/16 Amcangyfrif £m
Terfyn Uchaf Cyfanswm y Prifsymiau a Fuddsoddwyd Dros 364 o Ddiwrnodiau	**10.0**	**10.0**	**10.0**	**10.0**	**10.0**

Rhagolwg Economaidd a Chyfraddau Llog (Adrannau 3.2 a 4.1)

	Mar-13	Jun-13	Sep-13	Dec-13	Mar-14	Jun-14	Sep-14	Dec-14	Mar-15	Jun-15	Sep-15	Dec-15	Mar-16
Official Bank Rate													
Upside risk			0.25	0.25	0.25	0.25	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50
Central case	**0.50**	**0.50**	**0.50**	**0.50**	**0.50**	**0.50**	**0.50**	**0.50**	**0.50**	**0.50**	**0.50**	**0.50**	**0.50**
Downside risk		-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25
3-month LIBID													
Upside risk	0.25	0.25	0.25	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75
Central case	**0.40**	**0.40**	**0.40**	**0.45**	**0.45**	**0.50**	**0.50**	**0.50**	**0.55**	**0.55**	**0.55**	**0.60**	**0.60**
Downside risk	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25
1-yr LIBID													
Upside risk	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75
Central case	**0.85**	**0.90**	**0.95**	**0.95**	**1.00**	**1.00**	**1.00**	**1.00**	**1.10**	**1.10**	**1.10**	**1.10**	**1.10**
Downside risk	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25
5-yr gilt													
Upside risk	0.50	0.50	0.50	0.50	0.75	0.75	0.75	0.75	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00
Central case	**0.95**	**0.95**	**0.95**	**0.95**	**1.00**	**1.00**	**1.00**	**1.00**	**1.10**	**1.10**	**1.10**	**1.20**	**1.20**
Downside risk	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25
10-yr gilt													
Upside risk	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.75	0.75	1.00	1.00	1.00	1.00
Central case	**2.00**	**2.00**	**2.05**	**2.05**	**2.05**	**2.05**	**2.10**	**2.10**	**2.10**	**2.20**	**2.20**	**2.20**	**2.20**
Downside risk	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25
20-yr gilt													
Upside risk	0.50	0.50	0.50	0.50	0.75	0.75	0.75	0.75	1.00	1.00	1.00	1.00	1.00
Central case	**2.90**	**2.90**	**2.90**	**2.90**	**3.00**	**3.00**	**3.00**	**3.00**	**3.10**	**3.10**	**3.10**	**3.10**	**3.10**
Downside risk	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25
50-yr gilt													
Upside risk	0.50	0.50	0.50	0.50	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	1.00	1.00	1.00	1.00
Central case	**3.35**	**3.35**	**3.35**	**3.40**	**3.40**	**3.40**	**3.50**	**3.50**	**3.50**	**3.50**	**3.60**	**3.60**	**3.60**
Downside risk	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25

Tybiaethau Sylfaenol:

- Nid yw twf y DU yn debygol o ddychwelyd i fod yn uwch na'r cyffredin yn y dyfodol rhagweladwy. Roedd CMC yn gryf yn y trydydd chwarter, ar 0.9% ond mae'n annhebygol y bydd y momentwm hwn yn parhau yn y pedwerydd chwarter neu yn 2013. Rydym eto i weld cydbwysedd newydd wrth symud o dreuliant wedi'i ysgogi gan y sector cyhoeddus i fuddsoddiad a galw yn y sector preifat, a does dim arwydd o dwf mewn cynhyrchiant. Mae'r crebachu pellach ar Ardal yr Ewro, gan gynnwys economi bwerus yr Almaen, a'r rhagolygon am dwf arafach yn yr egin economïau (Brasil/Mecsico/India) yn gwaethygu'r gwendid.
- Mae'r Mynegai Prisiau Defnyddiwyd (CPI) wedi gostwng i 2.7 % o uchafbwynt o 5.2%. Mae'n debygol y bydd ansefydlogrwydd ym mhrisiau nwyddau yn effeithio ar CPI yn y tymor agos, a disgwylir y bydd hi'n cymryd mwy o amser nag a amcangyfrifwyd yn flaenorol iddo ostwng tua'r targed o 2% Rhagwelir y bydd twf gwirioneddol mewn cyflogau (h.y. ar ôl chwyddiant) yn parhau i fod yn wan.
- Mae'r rhagolygon cyllidol ar gyfer gostwng y diffyg strwythurol a sefydlogi lefelau dyled yn parhau i gynnig cryn her. Ceir llai o hygrededd yng ngallu'r DU i gael rheolaeth ar lefelau ei dyledion, ac mae hynny'n achosi risg i'r statws AAA, ond mae hanes diweddar (yr UD, Ffrainc) yn awgrymu na fydd hyn o reidrwydd yn golygu bod giltiau'n cael eu gwerthu.
- Heb leihad sylweddol ac annisgwyl mewn twf, mae'n debygol y cedwir lefel yr esmwytho meintiol ar £375bn am y tro. Mae'r ffaith bod benthyciadau rhatach ar gael o'r banc, ac wedyn i gorfforaethau drwy'r Cynllun Cyllid ar gyfer Benthyca yn ffactor sy'n cefnogi hyn.
- Mae newid Cronfa Ffederal yr UD yn ei ganllawiau ar gyfraddau o ddynodiad sy'n seiliedig ar ddyddiadau tuag at drothwyon economaidd (6.5% o ddiweithdra, rhagwelir

y bydd chwyddiant yn parhau i fod o dan 2.5% am 1 - 2 flynedd, inflation 1 – 2 years out projected to remain below 2.5%, mae'r disgwyliadau chwyddiant hirdymor yn parhau i fod wedi'u hangori'n dda) yn debygol o gynyddu ansicrwydd yn y farchnad mewn perthynas â chyhoeddiadau data hynod gyfnewidiol yr UD ar gyflogaeth.

- Mae Ardal yr Ewro yn gwneud cynnydd araf, sydd wedi lleihau rhywfaint ar y risgiau presennol, er bod gwledydd ymylol yn parhau i gael anawsterau. Bydd yn rhaid aros mwy o flynyddoedd eto cyn cael undod llwyr o ran bancio a chyllid.
- Yn y DU, mae problemau fel toriadau gwariant, lleihau'r diffyg yn y gyllideb a chodi uchafswm dyled y wlad yn parhau i fod heb eu datrys. Os na cheir ymdriniaeth â'r rhain erbyn mis Mawrth 2013, gallai hynny arwain at wrthdaro tebyg ynghyd â'r risg y bydd un neu fwy o asiantaethau'n gostwng statws credyd sofran yr UD.
- Gallai digwyddiadau economaidd ac/neu wleidyddol sbarduno gwrthdroad yn ymdeimlad y farchnad o risg, o'r "risg yn weithredol" gyfredol i "ddim risg weithredol" – etholiadau sydd ar ddod yn yr Eidal ac yn yr Almaen, y diffyg cytundeb ynghylch uchafswm dyled y DU, yr anhawster yn gysylltiedig â chynllun achub Cyprus, ac argyfyngau ariannol yn bwrw cysgod eto dros wledydd ymylol Ewrop – gallai hyn beri i giltiau a bondiau sofran droi'n fwy cyfnewidiol eto.

Rhestr Sofran a Gwrthbarti Gyfredol Gymeradwy (Adran 7)

Gwlad / Preswylfan	Gwrthbarti	Terfyn Uchaf y Gwrthbarti [3] %/£m	Terfyn Uchaf y Grŵp (os yw'n berthnasol) %/£m	Uchafswm Aeddfedrwydd (Adneuon Cyfnod ac Offerynnau heb Farchnad Eilaidd) [4]	Uchafswm Aeddfedrwydd (Offeryn y Gellir ei Negodi) [5]
Y DU	Santander UK Plc (Banco Santander Group)	15% / £10m	Amh.	2 flynedd	5 mlynedd
Y DU	Bank of Scotland (Lloyds Banking Group)	15% / £10m	22.5% / £15m	2 flynedd	5 mlynedd
Y DU	Lloyds TSB (Lloyds Banking Group)	15% / £10m		2 flynedd	5 mlynedd
Y DU	Barclays Bank Plc	15% / £10m	Amh.	2 flynedd	5 mlynedd
Y DU	HSBC Bank Plc	15% / £10m	Amh.	2 flynedd	5 mlynedd
Y DU	Nationwide Building Society	15% / £10m	Amh.	2 flynedd	5 mlynedd
Y DU	NatWest (RBS Group)	15% / £10m	22.5% / £15m	2 flynedd	5 mlynedd
Y DU	Royal Bank of Scotland (RBS Group)	15% / £10m		2 flynedd	5 mlynedd
Y DU	Standard Chartered Bank	15% / £10m	Amh.	2 flynedd	5 mlynedd
Awstralia	Australia and NZ Banking Group	15% / £10m	Amh.	2 flynedd	5 mlynedd
Awstralia	Commonwealth Bank of Australia	15% / £10m	Amh.	2 flynedd	5 mlynedd
Awstralia	National Australia Bank Ltd (National Australia Bank Group)	15% / £10m	Amh.	2 flynedd	5 mlynedd
Awstralia	Westpac Banking Corp	15% / £10m	Amh.	2 flynedd	5 mlynedd
Canada	Bank of Montreal	15% / £10m	Amh.	2 flynedd	5 mlynedd

[3] Mae canrannau terfyn uchaf y gwrthbarti wedi'u cynnwys fel canllaw yn unig, yn hytrach nag fel terfynau llym y mae'n rhaid cadw atynt. Er y gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu o fewn y canrannau hyn, mae'n bosibl yr eir heibio iddynt yn achlysurol oherwydd anawsterau ymarferol.

[4] 2 flynedd yw uchafswm y cyfnod cymeradwy ar gyfer adneuon cyfnod a buddsoddiadau anhylif (rhai sydd heb farchnad eilaidd), er yn ymarferol efallai y bydd y Cyngor yn buddsoddi am gyfnod byrrach yn dibynnu ar gyngor gweithredol gan Arlingclose.

[5] 5 mlynedd yw'r cyfnod hwyaf a gymeradwyir ar gyfer offerynnau y gellir eu negodi fel Tystysgrifau Adneuon, Nodynnau Tymor Canolig a Bondiau Corfforaethol, er yn ymarferol efallai y bydd y Cyngor yn buddsoddi am gyfnod byrrach yn dibynnu ar gyngor gweithredol gan Arlingclose.

Canada	Bank of Nova Scotia	15% / £10m	Amh.	2 flynedd	5 mlynedd
Canada	Canadian Imperial Bank of Commerce	15% / £10m	Amh.	2 flynedd	5 mlynedd
Canada	Royal Bank of Canada	15% / £10m	Amh.	2 flynedd	5 mlynedd
Canada	Toronto-Dominion Bank	15% / £10m	Amh.	2 flynedd	5 mlynedd
Y Ffindir	Nordea Bank Finland	15% / £10m	Amh.	2 flynedd	5 mlynedd
Y Ffindir	Pohjola	15% / £10m	Amh.	2 flynedd	5 mlynedd
Ffrainc	BNP Paribas	15% / £10m	Amh.	2 flynedd	5 mlynedd
Ffrainc	Credit Agricole CIB (Credit Agricole Group)	15% / £10m	22.5% / £15m	2 flynedd	5 mlynedd
Ffrainc	Credit Agricole SA (Credit Agricole Group)			2 flynedd	5 mlynedd
Ffrainc	Société Générale	15% / £10m	Amh.	2 flynedd	5 mlynedd
Yr Almaen	Deutsche Bank AG	15% / £10m	Amh.	2 flynedd	5 mlynedd
Yr Iseldiroedd	ING Bank NV	15% / £10m	Amh.	2 flynedd	5 mlynedd
Yr Iseldiroedd	Rabobank	15% / £10m	Amh.	2 flynedd	5 mlynedd
Yr Iseldiroedd	Bank Nederlandse Gemeenten	15% / £10m	Amh.	2 flynedd	5 mlynedd
Singapore	DBC Bank Ltd	15% / £10m	Amh.	2 flynedd	5 mlynedd
Singapore	Oversea-Chinese Banking Corporation (OCBC)	15% / £10m	Amh.	2 flynedd	5 mlynedd
Singapore	United Overseas Bank (UOB)	15% / £10m	Amh.	2 flynedd	5 mlynedd
Sweden	Svenska Handelsbanken	15% / £10m	Amh.	2 flynedd	5 mlynedd
Y Swistir	Credit Suisse	15% / £10m	Amh.	2 flynedd	5 mlynedd
UDA	JP Morgan	15% / £10m	Amh.	2 flynedd	5 mlynedd

** Nodwch y gallai'r rhestr hon newid, er enghraifft, os bydd gwrthbarti/gwlad yn cael ei (h)uwchraddio, ac yn bodloni ein hofferynnau teilyngdod credyd eraill, neu fod gwrthbarti newydd addas yn dod i'r farchnad. Fel arall, os caiff gwrthbarti ei israddio, gellir byrhau'r rhestr hon.*

Terfynau Grŵp – Ar gyfer sefydliadau mewn grŵp bancio, mae'r awdurdod yn gweithredu terfyn sydd 1.5 gwaith terfyn banc unigol o fewn y grŵp hwnnw.

Buddsoddiadau Amhenodedig

Offeryn	Uchafswm Aeddfedrwydd	Uchafswm %/£M o'r portffolio	Gwariant Cyfalaf?	*Enghreifftiau*
Adneuon cyfnod gyda banciau a chymdeithasau adeiladu sy'n bodloni'r meini prawf buddsoddi penodedig (yn unol â chyngor Arlingclose)	2 flynedd	Cyfanswm o 50%	Na	
Adneuon cyfnod gydag Awdurdodau Lleol	2 flynedd		Na	
Tystysgrifau adneuo ac offerynnau eraill y gellir eu negodi gyda banciau a chymdeithasau adeiladu sy'n bodloni'r meini prawf buddsoddi penodedig (yn unol â chyngor gan Arlingclose)	5 mlynedd		Na	
Buddsoddiadau gyda banciau a chymdeithasau adeiladu **nad ydynt yn bodloni'r** meini prawf buddsoddi penodedig (yn unol â chyngor gan Arlingclose ac ar ôl cael caniatâd gan Swyddog A151 Officer)	3 mis		Na	
Buddsoddiadau gyda sefydliadau **nad ydynt yn bodloni'r** meini prawf buddsoddi penodedig (yn amodol ar asesiad credyd allanol a chyngor penodol gan Arlingclose)	3 mis	£5m fesul Gwrthbarti	Na	*Banciau sy'n is na'r meini prawf a bennwyd e.e. Co-op*
	Blwyddyn	£1m fesul Gwrthbarti	Na	
	5 mlynedd	£100k fesul Gwrthbarti	Ie/Na[6]	*Busnesau Bach a Chanolig*
		Yn ddarostyngedig i Uchafswm Cyffredinol o		

[6] *Yn dibynnu ar natur y trafodyn â'r trydydd parti.*

		£20m		
Adneuon gyda darparwyr cofrestredig	Yn unol â chyngor gan Arlingclose		Na	*Cymdeithasau Tai*
Giltiau	10 mlynedd	50%	Na	
Bondiau a gyhoeddwyd gan Fanciau Datblygu Amlochrog	10 mlynedd	50%	Na	*Bondiau'r EIB, Bondiau Cyngor Ewrop ac ati*
Bondiau sterling gan lywodraethau sofran ar wahân i'r DU	10 mlynedd	50%	Na	
Cynlluniau Cyllid y Farchnad Arian a Chydfuddsoddi	Ni ddiffiniwyd dyddiad aeddfedrwydd ar gyfer y mathau hyn o gyllid	50%	Ie	*Ignis Sterling Liquidity Fund, Federated Prime Rate Sterling Liquidity Fund, RBS Global Treasury Funds etc.* *Investec Target Return Fund; Elite Charteris Premium Income Fund; LAMIT; M&G Global Dividend Growth Fund*
Offerynnau corfforaethol a dyled a gyflwynir gan gyrff corfforaethol a brynwyd o 01/04/12 ymlaen.	10 mlynedd	50%	Na	

Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw (MRP) 2013/14

Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru ar y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (a gyhoeddwyd yn 2010) yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i wneud darpariaethau darbodus ar gyfer adbrynu dyledion. Mae Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi Canllawiau ar y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw, ac mae'n ofynnol i awdurdodau lleol "roi sylw" i'r Canllawiau hynny o dan adran 21(1A) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.

Dyma'r pedwar dewis sydd ar gael o ran MRP

- Dewis 1: Dull Rheoleiddiol
- Dewis 2: Y Dull CFR
- Dewis 3: Y Dull Oes Asedau
- Dewis 4: Y Dull Dibrisiad

DS Nid yw hyn yn cau allan dulliau darbodus eraill.

MRP yn 2013/14: Ni ddylid defnyddio Dewisiadau 1 a 2 ond ar gyfer gwariant cyfalaf â chymorth heblaw HRA a gyllidir drwy fenthyca (h.y. costau cyllido yr ystyrir eu bod yn cael eu cynnal drwy'r Grant Cynnal Refeniw gan Lywodraeth Cymru). Mae'r dulliau o wneud darpariaeth ddarbodus ar gyfer gwariant cyfalaf digymorth heblaw HRA yn cynnwys Dewisiadau 3 a 4 (y mae modd eu defnyddio hefyd ar gyfer gwariant cyfalaf â chymorth heblaw HRA os yw'r Cyngor yn dymuno).

Bydd y Cyngor yn defnyddio Dewis 2 o ran gwariant cyfalaf â chymorth heblaw HRA a gyllidir drwy fenthyca a Dewis 3 o ran gwariant cyfalaf digymorth heblaw HRA a gyllidir drwy fenthyca.

Bydd yr MRP yng nghyswllt lesau a chynlluniau PFI a gynhwyswyd ar y Fantolen o dan y Cod Ymarfer Cyfrifeg sy'n seiliedig ar yr IFRS yn cyd-fynd â'r ad-daliad prifswm blynyddol ar gyfer yr ymrwymiad gohiriedig cysylltiedig.

Gwneir yr MRP ar asedau Tai yn unol â Phenderfyniad Cyffredinol ynghylch Credyd Eitem 8 a Dyled Eitem 8.

Cyflwynir y Datganiad MRP i'r Cyngor cyn dechrau blwyddyn ariannol 2013/14. Os ceir cynnig ar unrhyw adeg i amrywio telerau'r Datganiad MRP gwreiddiol yn ystod y flwyddyn, dylid cyflwyno datganiad diwygiedig i'r Cyngor bryd hynny.